

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 9fed Gorffennaf, 2018, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeiryddes)
Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)
Y Cyngorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Carys E. Williams
Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)
Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen, Michael Strain, Siôn Williams

29. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod.

30. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

31. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor I Ieg Mehefin, 2018. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Carys E. Williams ac eilwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones.

Y cofnodion wedi eu cymeradwy oddigerth newid enw mai'r Cyngorydd Glyn Roberts, yr Is-Gadeirydd, oedd yn cadeirio'r cyfarfod diwethaf.

MATER YN CODI

Eitem 19 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (2) – Mainc ar Gomin Bryncroes

Adroddodd y Cyngorydd Glyn Roberts ei fod wedi trwsio'r fainc ar y Comin ym Mryncroes am gôst o £60.00.

Diolchwyd i'r Cyngorydd Glyn Roberts am wneud y gwaith ac **awdurdodwyd** talu £60 iddo.

20. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Nid oedd unrhyw gais i law.

Adroddodd Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, fod Datblygwr wedi bod mewn cysylltiad âg ef yn datgan y bwriad i adeiladu tai fforddiadwy dwy ystafell wely Yng Nghongl Meinciau, Botwnnog. Byddai hwn yn gyfle i bobl ifanc gael cychwyn a'r un modd i bobl hyn gael cartref llai.

Penderfynwyd galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor os daw y cais i law yn ystod mis Awst..

32. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i sylw'r Cyngor Iechyd.

33. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd gofyn i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, farbio'r tyfiant ym Mhedair Croeslon, Pwllmaen ac i lawr am Fotwnnog.
Hefyd gwneud ymholiadau yngyn a glanhau'r draen ger Hen Bost, Sarn.

34. **HAWLIAU MIS AWST**

Penderfynwyd gweithredu hawliau mis Awst sef os byddai cais cynllunio i law, yna fod yr aelodau lleol ynghyd a'r Cadeirydd i benderfynu ar y cyfryw; a'r un modd os derbynir cyfrif angen ei dalu fod hawl i'r Cadeirydd awdurdodi hynny.

35. **ADOLYGIAD O'R SECTOR CYNGHORAU CYMUNED A THREF**

I adrodd fod Panel Adolygu Annibynol wedi ei sefydlu i ystyried rôl Cyngorau Cymuned a Thref yn y dyfodol a bydd yn cyflwyno eu hadroddiad terfynol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref.

36. **CYNLLUN DATBLYGU AR Y CYD GWYNEDD A MON**

Mae'r ddogfen uchod yn cael ei chylchredeg i aelodau'r Cyngor a thrafodir ei chynnwys yng nghyfarfod mis Medi.